CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEDI 16, 2025

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Rhydymain**
**Nos Fawrth, Medi 16, 2025 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith (Cadeirydd), Karen Goswell, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Llion Williams, Aaron Roberts ac Emlyn Roberts. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths, Robin Jones.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 15, 2025**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 15, 2025**

Eitem 5. Eitem 6.b. Llythyr (25/7/2025) oddi wrth Swyddog Adfywio Trefi ynglŷn â grant 'Gwynedd Ni'. Mae'n diolch am ein cais ac yn rhoi gwybod mi allwn ychwanegu at ein cynlluniau gyda hyd at £2,500 yn fwy na'r swm rhoddwyd.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau am syniadau.

Anfonwyd llythyr (7/9/2025) i Adra yn rhoi gwybod iddynt rydym yn rhoi mainc ar dir Hengaer, Brithdir
Derbyniwyd ateb (10/9/2025) oddi wrth Adra yn rhoi gwybod maent angen cynllyn y fainc a'i lleoliad. Mae rhaid cael eu caniatad cyn rhoi y fainc yn y lleoliad.
Anfonwyd llythyr (10/9/2025) i Adra yn rhoi llun o'r fainc a map yn dangos y lleoliad.
Derbyniwyd ateb (11/9/2025) ac roeddynt angen atebion i:
Fydd y fainc yn cael ei leoli yn yr un safle ar hen un, rhwng y bin ar bostyn 'hydrant'?
Oes yna ymgynghoriad wedi cael ei wneud efo'r trigolion cyfagos am ail sefydlu'r fainc ar y tir? Os ddim fydd rhaid cadarnhau fod hyn wedi ei wneud; mae hyn i osgoi cwynion am y fainc.
Ydi'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal a chadw'r fainc a'r rhwymedigaeth?
Os mae'r caniatad yn cael ei rhoi, o gwmpas pryd fysa fainc yn cael ei osod a gan bwy?
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Adra mae lle rhwng y bin a'r bostyn 'hydrant' i'r fainc, mae cefnogaeth yn yr ardal am fainc, bydd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal a chadw'r fainc a'r rhwymedigaeth, a bydd y fainc yn cael ei osod tua mis Rhagfyr gan y Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd hefyd rhoi gwybod i Grant 'Gwynedd Ni' i Gyngor Gwynedd darparu sticeri logo SPF a Chyngor Gwynedd cael ei osod ar unrhyw adroddiad, dyluniadau a chyfarpar.

Llythyr (29/7/2025) oddi wrth Neuadd Llanfachreth yn angen mainc wrth y Neuadd.

Anfonwyd (30/7/2025) ail gais i Swyddog Prosiect Adfywio Trefi (Gwynedd Ni), Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd sef:

cael dau hysbysfwrdd plastig ail gylchu (un yw gosod ar wal Neuadd Brithdir wrth y peiriant diffibriliwr, a'r llall yn Rhydymain yn lle yr un presennol) a derbyn pedair mainc blastig ail cylchu a'u gosod yn Top Torrent, yn Hengaer, Brithdir, yn Llanfachreth ar y llwybr wrth y Neuadd ac yn Rhydymain wrth y Neuadd. Y gost fydd:

£931.93 + £1,249.93 + (£444 x 4) + £500 (amcangyfrif cost llafur) = £4,457.86.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Panel Warehouse am anfoneb i brynnu 2 hysbysfwrdd. Cytunodd Rhun i dderbyn yr hysbysfyrddau.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Wynnstay (Agricultural Supplies) Ltd ynglŷn y gost am y 4 mainc a pan fyddant ar gael.

Llythyr (15/8/2025) oddi wrth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi cytuno i gynnig cyfraniad arianol o £4,006.54 tuag at ein cynllun (gofynwyd am £4,457.86). Mae angen gosod logo SPF (Shared Prosperity Fund) a Chyngor Gwynedd ar unrhyw adroddiad, dyluniadau neu gyfarpar sydd wedi ei ariannu drwy'r grant.

Anfonwyd y llythyr, gan gynnwys telerau Cyngor Gwynedd, i'r aelodau. Gofynnwyd iddynt ei ddarllen.

Anfonwyd (18/8/2024) Ffurflen Derbyn y grant i Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd o fewn yr 14 diwrnod fel roedd angen i wneud. Anfonwyd hefyd (21/8/2025) Ffurflen Bacs iddynt.

Eitem 6.b. Llythyr (5/8/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn atgoffa am y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig bydd ar 3/9/2025.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

Llythyr (27/8/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae'r cyfarfod wedi ei ganslo oherwydd niferoedd isel disgwyli'r bod yn bresennol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

## 6. Gohebiaeth

a. Llythyr (16/7/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod gweminar cynllun Coedwig Genedlaethol Cymru 2025/27 bydd ar 17/7/2025 a 31/7/2025. Mae'r manylion cysylltu ar y llythyr.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (24/7/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhalwyd yn Penrhyndeudraeth ar 16/7/2025.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (21/8/2025) oddi wrth Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. yn rhoi gwybod bydd y Clwb yn cynnal rali geir ar nos Sadwrn / bore Sul Medi 13/14. 2025 yn cychwyn am 11:30yh ac yna ar hyd ffyrdd.

ch. Llythyr (25/8/2025) oddi wrth Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Hawl i Fyw Adra a Cyfeillion Llŷn anfonwyd i Mark Drakeford AS. Mae'r llythyr ynglŷn ag argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg a'i siaradwyr.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (29/8/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd yn cael ei gynnal ar Faes y Sioe Amaethyddol ar 1/10/2025 am 9.30yb.. Amgáu mae Agenda, Ffurflen Gofrestru, Cynigion ar gyfer Cyfarfod, Cyfansoddiad a Rheolau Trefn.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (1/9/20250 oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud:

1. i atgyweirio bylchau yn waliau cynnal wrth ymyl hen Ysgol Bryncoedifor.
2. i ymchwilio ar safle crac ar ochr y Ffordd Lefel yn ymyl Melin Ffridd Goch.
3. gan Tim Tacluso Ardal Ni (1-5/9/2025) yn Brithdir a Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (1/9/2025) oddi wrth Nuclear Restoration Services yn rhoi gwybod maent yn cynnal ymgynghoriad i'r cyhoedd cael rhoi gwybod iddynt beth hoffai cael ei wneud wrth i safle Trawsfynydd symud tuag at ei gyflwr terfynol. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn Coleg Meirion-Dwyfor, Stad Ddiwydiannol, Marian Mawr ar 11/9/2025 am 10:00 – 3:00yp.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (2/9/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cyrsiau hyfforddiant ym misoedd Medi – Rhagfyr 2025
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## 7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (17/7/2025) yn rhoi gwybodaeth ar Ffermio Bro bydd yn y Sioe Frenhinol Cymru eleni. Mae Ffermio Bro yn rhoi cymorth ar gyfer prosiectau ffermio yn y Parc.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (13/8/2025) yn gwahodd ni i ddigwyddiad bydd yn rhoi gwybodaeth am waith y Parc ar 27/9/2025 yn Tŷ Siamas am 10.00yb i 4.00yp.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## 8. Materion Ariannol

a. Llythyr (23/7/2025) oddi wrth Sioe Rhydymain. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Bil (24/7/2025) am £795.00 oddi wrth Archwilio Cymru tuag at ffiodd archwilio 2023/ 2024.

Penderfynwyd talu'r bil. Hefyd, i'r Cadeirydd anfon llythyr i Archwilio Cymru (gyda chopi i Un Llais Cymru) i ofyn sut maent yn dod i ffigwr o £795 tuag at daliad Ffioedd Archwilio 2023/24. Gyda thaliad o £360 codwyd gan Gyngor Gwynedd tuag at Archwilio Mewnol, mae'r Cyngor Cymuned yn gwario 9.6% o'r praesept sy'n hynod o uchel i archwilio cyngor bach.

c. Llythyr (24/7/2025) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylionn cyflog i weithwyr am y cyfnod 2025/26.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cyflog presennol y Clerc yw £14.60 x 18awr x 12mis = £3,153.60 ar bwynt SCP13. Taliad misol i HMRC yw: £52.56. Taliad misol i'r Clerc yw: £210.24 .

Mae pwynt SCP13 wedi newid i £15.06 yr awr ddyddiedig o Ebrill 1, 2025.
Bydd y cyflog newydd yn £15.06 x 18awr x 12mis = £3,252.96.
Taliad misol: £3,252.96 / 12 = 271.08.
Taliad misol i HMRC: £271.08 x 20/100 =£54.22.
Taliad misol i'r Clerc: £271.08 – £54.22 = £216.86.

Penderfynwyd derbyn newid y cyflog.

ch. Bill (1/8/2025) am £360.00 oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Bil tuag at wasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2024/2025. Llythyr (4/9/2025) atgoffa am y taliad.

Penderfynwyd talu'r bil

d. Llythyr (27/8/2025) oddi wrth Uned Taliadau yn rhoi gwybod bydd praesept £6,000 (hanner blwyddyn) yn ein cyfrif banc.

dd. Llythyr (8/9/2025) oddi wrth Theatr Bara Caws. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

e. Llythyr (15/9/2025) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau ym Meirionnydd, Adran Economi a Chymuned yn rhoi gwybod mae grant hyd at £25,000 ar gael i gefnogi prosiectau cymunedol sy'n gwella lleol a hyrwyddo llesiant.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/7/2025: £1,196.21
Balans yn y banc ar 29/7/2025: £8,809.86.

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/8/2025: £1,197.75
Balans yn y banc ar 29/8/2025: £14,542.06.

## 9. Archwilio

a. Llythyr (15/8/2024) oddi wrth Archwilio Cymru yn gofyn am fwy o wybodaeth a hyn ers Fai 24, 2025 pan anfonwyd y gwybodaeth roeddynt ei angen.

Roeddynt angen gwybod os oedd gan y cyngor prosiectau cyfalaf am y flwyddyn 2024-25. Dywedwyd wrthynt nid oedd gan y cyngor prosiectau cyfalaf.

Roeddynt angen gwybod os rydym wedi mabwysiadu Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (General Power of Competence). Mae hwn yn rhywbeth newydd i ni. Mae PCC yn rhoi gwybodaeth bod y Cyngor yn gymwys. Rhoddwyd gwybod iddynt (18/8/2025) nid oes gan y cyngor wybodaeth ar PCC a bod y gofynion yn ddiangen ac yn engraifft o fiwrocratiaeth ddianghenraid.

Derbyniwyd ateb (28/8/2025) yn dweud roeddynt wedi cael gwybod roedd y Cyngor wedi ateb 'ie' ar gyfer GPoC ac angen cadarnhad bod hyn yn gywir i gwblhau'r dystysgrif archwylio. Rhoddwyd gwybod iddynt nid yw'r Cyngor yn gwybod (doedd y Clerc ddim yn gwybod) be oedd GPoC ac roedd camgymeriad wedi ei wneud wrth ddweud bod y Cyngor gyda GPoC.

## 10. Materion yr Aelodau

a. Rhoddwyd gwybod (4/8/2025) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae coeden wedi dod i lawr ar yr A494 rhwng Dolgellau a Rhydymain. Mater codwyd gan Emlyn.

Cafodd y goeden ei chlirio.

b. Anfonwyd llythyr (21/8/2025) i Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen postyn newydd i ddal y gât sy'n rhoi mynedfa i gae chwarae Ysgol Llanfachreth. Hefyd, mae angen ffens tua 2 fedr o hyd rhwng y postyn newydd a'r ffens sy'n rhedeg ar ochr yr afon. Mater codwyd gan Gerallt.

Oherwydd ni dderbyniwyd ymateb i'n llythyr penderfynwyd gofyn i Delyth ysgrifennu i'r Adran iddynt roi sylw am fod yn fater o Iechyd a Diogelwch.

c. Cais gan breswyliwr y gymuned am arwydd Araf/Slow yn Top Torrent i rybuddio traffig o gyfeiriad yr A470. Mae angen yr arwydd cyn yn dod at grib y ffordd yn mynd lawr tua'r bont.

Penderfynwyd anfon y neges i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

ch. Penderfynwyd anfon neges i Peter David Roberts, Adran Golau Stryd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod iddo osod lamp wrth Neuadd Rhydymain fel roedd wedi bwriadu ei wneud i ni. Bydd y gost tua £1,700. Gweler Cofnodion Blynyddol Mai 21, 2024, Eitem 11.b.

## 11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Mae Caru Coed y Brenin yn trafod cael grantiau i wneud cais i Cyfoeth i redeg y lle.
Mae Caru Coed y Brenin wedi cael diwrnod agored yn Coed y Brenin 17/9/25 i ddechrau y broses o dendro am redeg yr adnoddau i gyd ar y safle gan gynnwys y traciau beic. Bydd gwneud y cais yn her fawr i grŵp bach a bydd angen help arnom i wneud y cais.

b. Mae mast EE ac eraill wedi ei droi ymlaen yn Coed Y Brenin ac yn rhoi signal ffôn symudol i ardal Llanfachreth.

c. Mae Cyngor Ganllwyd yn trafod gwneud arolwg tai a Cyngor Llanelltyd wedi cael cais gen i hefyd i ystyried gneud arolwg.

ch. Pensaer yn cychwyn ar y gwaith yn hen ysgol Llanfachreth.

d. Perchennog Ysgol Ganllwyd ddim wedi ymateb i gais y cyngor i drafod prynu yr adeilad.

dd. Y Parc yn trafod dyfodol Plas Nannau gyda nifer o asiantaethau preifat a statudol.

e. Y Parc wedi cyflogi tri i weithio ar y Cynllun Ffermio Bro newydd.

f. Y Parc wedi rhoi caniatâd i gofeb yn Penmaenpool i gofio am drychineb 1966 yn dilyn cais gan Cyngor Tref Dolgellau.

Llofnod: Dyddiad: